Senedd Cymru
**Comisiwn y Senedd**
—
Welsh Parliament
**Senedd Commission**

Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

20 Mawrth 2024

Annwyl Peredur,

**Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)**

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'r trydydd, y seithfed, a'r unfed argymhelliad ar ddeg a wnaed gan y Pwyllgor Cyllid yn ei adroddiad *Goblygiadau ariannol Bil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau)*.

Mae'r ymatebion i bob argymhelliad ynghlwm fel atodiad.

Yn gywir,

Elin Jones AS
Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Senedd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg / We welcome correspondence in Welsh or English

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.cymru
0300 200 6227

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Sulafa.Thomas@senedd.wales
0300 200 6227

## Ymateb Comisiwn y Senedd i Argymhelliad 3, Argymhelliad 7 ac Argymhelliad 11

**Argymhelliad 3:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Comisiwn y Senedd yn parhau i gyflwyno costau sy'n ymwneud â diwygio'r Senedd fel rhai sydd wedi'u neilltuo yn ei ddogfennaeth ar y gyllideb flynyddol er mwyn sicrhau eglurder a thryloywder.

**Ymateb Comisiwn y Senedd:**

Gallaf gadarnhau bod Comisiwn y Senedd yn bwriadu parhau i gyflwyno costau sy'n ymwneud â diwygio'r Senedd fel rhai sydd wedi'u neilltuo yn ei ddogfennaeth ar y gyllideb flynyddol er mwyn sicrhau eglurder a thryloywder.

**Argymhelliad 7:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn cynnal adolygiad o gyfluniad presennol swyddfeydd yr Aelodau yn Nhŷ Hywel, gan gynnwys:

- asesiad a dadansoddiad cost a budd ar y defnydd o weithio cynllun agored; ac
- asesiad o'r defnydd o ynni.

**Ymateb Comisiwn y Senedd:**

Bydd Comisiwn y Senedd yn cynnal adolygiad o gyfluniad a ffurf presennol swyddfeydd yr Aelodau mewn ymgynghoriad â'r Aelodau a'u staff i ddatblygu'r gofynion a'r opsiynau a ffefrir i greu'r swyddfeydd ychwanegol y bydd eu hangen ar gyfer yr Aelodau ar gyfer y Seithfed Senedd, os cytunir ar Fil Senedd Cymru (Aelodau ac Etholiadau).

Mae cyfluniad presennol y swyddfeydd yn cynnwys swyddfeydd unigol ar gyfer yr Aelodau a'u staff cymorth yn ogystal â darparu un man swyddfa sy'n cynnwys gofod cynllun agored a rennir ar gyfer staff cymorth a swyddfeydd unigol llai i Aelodau o'r Senedd.

Bydd y Comisiwn yn asesu amrywiaeth eang o ffactorau, gan gynnwys defnydd o ynni, effeithlonrwydd o ran y gofod, ac anghenion defnyddwyr y gweithleoedd i ddatblygu'r opsiwn a ffefrir.  Mae'r Comisiwn wedi cytuno ar nifer o dybiaethau cynllunio ar gyfer y prosiect hwn sy'n cynnwys y dylai'r dyluniadau fod yn gyson â chynlluniau swyddfeydd Tŷ Hywel ar hyn o bryd, er mwyn cynnal cysondeb a sicrhau gwerth gorau ar gyfer y pwrs cyhoeddus.  Mae Comisiwn y Senedd hefyd yn gweithio'n agos gyda thimau Ystadau a Chyfleusterau Llywodraeth Cymru i

sicrhau bod ein priod feysydd gwaith yn cael eu cynllunio a'u cydlynu'n effeithiol ar gyfer y prosiect hwn.

**Argymhelliad 11:** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod y Gweinidog, mewn ymgynghoriad â Chomisiwn y Senedd, yn rhoi rhagor o eglurder ynghylch yr amserlen waith a gaiff ei dilyn ar ystadau'r Senedd a Thŷ Hywel os na chytunir ar y Bil.

**Ymateb Comisiwn y Senedd:**

Mae Comisiwn y Senedd wedi cytuno na fydd unrhyw waith addasu ffisegol i ystad y Senedd a Thŷ Hywel mewn ymateb i Ddiwygio'r Senedd yn cael ei wneud cyn i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol.